YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LIII. RHAGFYR 1953 RHIF 12

Nodiadau'r Golygydd.

"Y LLEN"

DYMA oedd testun y bryddest a enillodd goron y Rhyl eleni. Ni raid imi gyhoeddi nad yw'r Cymry erbyn hyn yn talu yr un sylw a chynt i'w beirdd ac i'w barddoniaeth. Tyrrir yn un haid i weld y coroni megis plant yn canlyn syrcas ond gadewir i farddoniaeth y bardd yn farw hoel rhwng dail llyfr y cyfansoddiadau. Bu lle arbennig i'r bardd yn y Gymdeithas Gymreig ac ef yn yr hen amser oedd y gŵr canolog a phwysig, ond yn y dyddiau diwethaf yma cododd rhagfarn yn ei erbyn ac fe aethpwyd i edrych arno fel rhyw fath o ffril di-alw-amdano ar ymylon cymdeithas. Ond y mae Cymru yn codi beirdd o hyd a iawn holi beth yw eu swydd mewn cymdeithas a'u rhodd i'r ddynoliaeth. Rhodd y saer yw ei waith mewn coed ; rhodd y crydd yw ei esgid esmwyth ; rhodd arlunydd, ei lun. Ond rhodd bennaf bardd mae'n sicr yw gweledigaeth glir ; lle bo'r cyffredin yn gymylog ei syniadau y mae'r bardd yn medru ' cloi synnwyr mewn clysineb.' Meddylier am gwpled fel hwn :

> "Hysbys y dengys y dyn
> O ba radd y bo'i wreiddyn.

Y pethau sydd megis cysgodion i ni—fe'u gwêl bardd megis fflach ac fe'u rhydd mewn geiriau cofiadwy. Y mae a fynno'r rhan fwyaf o grefftau â pharatoi ar gyfer anghenion corff dyn ; y mae a fynno crefft bardd â chyfoethogi enaid, ac at y cylch cyfrin hwnnw y mae ei apêl. Dyna gyfrinach pob barddoniaeth fawr a dyna pam yr awn am dawelwch, diddordeb a chysur yn nydd gofid i gwmni'r bardd. Gall ef esmwythau arnom pan fyddom hiraethus —onid hyn yw camp telyneg fach syml fel y 'Border Bach' gan Crwys ?

"Hen estron gwyllt o ddant y llew
A dirmyg lond ei wên ;
Sut y gwyddai'r hen droseddwr hyf
Fod mam yn mynd yn hen ? "

Fe welwch fod y bardd yn byw un o'n profiadau syml gyda ni ac fe ddaliodd ein deigryn cudd a'i gostrelu yn ei eiriau.

A phwy mewn hiraeth na welodd ei hiraeth ei hun yn yr hen bennill sy'n ateb y dyfnder yn ein heneidiau ?

"Hiraeth mawr a hiraeth creulon
Hiraeth sydd yn torri 'nghalon ;
Pan fwy dryma'r nos yn cysgu,
Fe ddaw hiraeth ac a'm deffry."

Y mae geiriau o'r fath yn siarad am y pethau parhaol, tragwyddol, sy'n perthyn i enaid dyn ; daw'r bardd, nid i'r gegin ond i barlwr y galon—daw i gynteddau'r trysorau anwylaf a'r meddyliau mwyaf cysegredig. Efallai bod rhai ohonoch wedi bod yn gaeth gan afiechyd neu ofid yn ddiweddar ; gwrandewch ar y bardd yn dweud eich profiad :

"Gwyn eu byd yr adar gwylltion,
Hwy gânt fynd i'r fan a fynnon' ;
Weithiau i'r môr a weithiau i'r mynydd,
A dod adref yn ddigerydd.

Neu fe gofiwch am Bobbie Burns yn dweud,

"Ye bonnie banks of flowery Doon,
How can ye bloom sae fair ;
Ye little birds, how can ye sing
When I'm sae full of care."

Ac am y rheswm yma, y ffaith ei fod yn plymio i ddyfnderoedd bywyd y mae i'r bardd ei swydd grefyddol ym mhatrwm cymdeithas. Ni raid ond cyfeirio at le'r emyn yn ein gwasanaeth cyn gweled hynny. A pha wasanaeth crefyddol a fyddai'n gyflawn heb farddoniaeth fawr y Beibl fel ei ceir yn y llyfr salmau, neu lyfr Job i enwi dim ond dau. Ar ddydd angladd troi at fardd a wnawn a chlywed ei gân yn ein codi uwchlaw'r trallod,

"Yr Arglwydd yw fy mugail,
Ni bydd eisiau arnaf . . . "

Ni fyddai'n rhyfyg i ganfod y bardd yn yr Arglwydd Iesu chwaith; onid oes rhin barddoniaeth yn melysu moesoldeb fawr y Gwynfydau. Y mae ynddynt dafoli a mesur geiriau yn y gyfatebiaeth a'r ail-adrodd. Na ddi-ystyrier y bardd.

BARDDONIAETH AFREOLAIDD.

Ceir llawer o gwyno heddiw am fod barddoniaeth ddiweddar wedi mynd yn rhy afreolaidd—dim mesur, dim cynghanedd, dim odli. Ond pwyller cyn collfarnu'n llwyr ! Wedi'r cyfan, dyma oedd yr hen ddull. Nid oes neb yn cwyno am nad oes odl a chynghanedd yn y drydedd salm ar hugain. Nid yw ddim anos ei deall oherwydd hynny. Dyfynnaf baragraff diddorol o'r *Faner*, "Trwy or-bwysleisio lle odlau mewn telyneg, rhoddwn fwy o bwys ar y botymau nag ar y gôt . . . " Gallaf feddwl am delynegion pur a luniwyd cyn bathu'r term "telyneg" . . . Pa ffurf reolaidd—yn yr ystyr Gymreig—sydd i linellau fel y rhain :

I ba le yr af oddi wrth dy Ysbryd ?
Ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd ?
Os dringaf i'r nefoedd,
Yno yr wyt Ti,
Os cyweiriaf fy ngwely yn uffern,
Wele Di yno.
Pe cymerwn adenydd y wawr,
A phe trigwn yn eithafoedd y môr ;
Yno hefyd y'm tywysai dy law
Ac y'm daliai dy ddeheulaw.

Y mae i'r canu a ddyfynnwyd rithm eglur, a phwy a wad nad yw'n ganu telynegol ?"

PRYDDEST DILYS CADWALADR.

Y mae'r feirniadaeth uchod yn wir am bryddest arobryn Dilys Cadwaladr. Gwn ei bod yn afreolaidd ei ffurf ond eto y mae yma ganu barddonol a neges i gymdeithas ein hoes. A'r hyn a fynnwn anelu ato yn hyn o lith yw ceisio dangos gorau medraf beth yw'r neges honno, a chreu awydd mewn rhywun i ddarllen neu ail-ddarllen y gerdd. (Gair bach rhwng cromfachau. Mae llawer yn cymysgu rhwng llen a llên a chystal egluro mai *cyrten* neu *veil* yw llen ; a llên, wrth gwrs, yn dynodi llenyddiaeth. Y mae'n boen i glustiau dyn i glywed dynion yn dweud "adran llen ac adrodd" mewn Eisteddfod—*adran cyrten ac adrodd !*)

Yn awr, yn y gerdd arbennig hon, y mae Dilys Cadwaladr yn disgrifio ei hymchwil am Dduw—Duw sydd wedi ei guddio gan len yn ein hoes ni. Ac ar hyd y gerdd fe'i dilynwn i weld ei ymdrech i rwygo'r llen a chanfod Duw. Yn gyntaf, rhaid cyfaddef mai ei hymchwil hi yw ein hymchwil ninnau hefyd. Ychydig bellach yw y rhai sy'n gweld Duw ac er ein bod yn ymarfer â chrefydd, rhyw ymbalfalu yn y tywyllwch a wnawn.

Y mae'r bryddest yn agor a'r bardd yn mynd at y Gwyddonydd (*Scientist*) i geisio ei gymorth,

Dodais y nwy yn y glorian
A gwelais neidr y trydan yn llithro
Ar wifren goch yn ôl i gôl y gwyll.

Paham yr â at y Gwyddonydd yn gyntaf i gyd? Onid yw yn dangos cyfeiriad ei hoes; onid ato ef yr â dynion i geisio gwaredigaeth a balm? Onid ef yw archoffeiriad y gred mewn anffaeledigrwydd gwyddoniaeth? Yr ydym wedi chwerthin llawer am ben ofergoeliaeth dyddiau grym y Babaeth—chwerthin am y gred mewn dŵr santaidd. Ond fe awn ninnau hefyd am ein *dŵr santaidd*, a'i gael wrth y galwyni yn siop y Cemist! Lle'r ymgrymai'r oes o'r blaen wrth allor y ddelw ar ikon; ymgrymwn ninnau wrth allor y dablet a'r suring. Ac ofer yw ymchwil y bardd yn y labordy gyda'r gronynau a'r pryfetach.

Cofiodd wedyn am fyd Natur. A allai weled Duw yno? Cofiodd am

. . . desog nosweithi haf
A lliwiau'r eithin ym Mhennant.
Dychwelais i fodio'r llysiau
Eithr profais ddiflastod mwy o dan fy nhafod.
Chwerwder colyn o dan y mêl.

Yr oedd i Natur ei cholyn ac yr oedd blas y colyn yn ei phethau melysaf—'*nature, red in tooth and claw.*' Yr oedd i Natur greulonderau a ddisgynnent yn llen rhag gweld Duw hyd yn oed yn ei daioni. Credodd iddi weld rhywbeth,

Ond dim ond eco Ei lais yn mwngial
Yn siffrwd y cacwn oedd.

Nid oedd yma lais clir, dealladwy—dim ond eco, eco pell,—mwmial, oedd. Nid oedd Duw yn siarad yn Natur, a chan sorri wrtho am beidio siarad yn blaen,

". . . gwesgais goesau glas
Rhwng bys a bawd gan dagu llif y bywyd.
Gwelais blygu gwddf y fflur
A gwelwi'r wedd megis geneth ofidus.
Tawodd ei sisial, bu farw'r blodyn.

Beth oedd wedi rhoi harddwch i'r blodyn? Beth oedd wedi rhoi bywyd iddo; a oedd ei bysedd wrth wasgu'r goes fregus wedi cyffwrdd â llif bywyd Duw; a fu ei llaw ar lwybr traed yr Anfeidrol ar ei daith? Ni wyddai ddim ond bod y blodyn wedi marw am iddi roi ei bys ar un o sianelau cudd ei faeth.

Ar hyn y mae'r bardd yn gadael Natur gan droi at ryfeddodau mwy y cread.

"Gorweddais ar y ddaear yn y gwlith
A chlywed su'r dyfalwch yn y pridd".

Y mae'n closio at fynwes yr hen fam, y fam a ddyry fywyd ac a ddyry fedd. Ai yn y pridd agos neu'r haul pell anghyffwrdd oedd y gyfrinach? Ond yma eto yr oedd,

"Hoyw fataliynau a warchodai
Yr hen selerydd llawn.

Os mai yno y trigai Duw, ni ellid dynesu ato, a throes y bardd i chwerthin am ben diniweitrwydd cyndeidiau'r hil a addolai'r haul. Nid oedd Duw yn ei fydysawd, gadawsai iddo droi fel melin wynt wag,

"Yn bellen brysur sy'n troi
Fel lleban meddw wrth bolyn syrcas . . .
A gadael ei gread i araf arafu
A'r cruglwyth cnawd a'r pridd
Yn hen domennydd yng Nghesail Chaos".

Yna mae'n holi, beth am stori'r Epa a chwedl wyddonol datblygiad dyn o'i deulu ef? Os mai hwn yw tad dynoliaeth, yr oedd yn agosach at y Crewr â'i lluniodd na dim arall; yn agosach at ddechrau pethau. Ond pan syllodd arno gwelodd mai hen

"lygaid dialgar oedd iddo".

Gweddïodd am faddeuant oblegid nid oedd Duw yn hwn.
Yna daw rhywun ar ei dro i awgrymu mai mewn poen y gwelir Duw,

"Mae yn yr ing y mae cyweirnod
Ei salm a'i anthem . . . Ef".

Ai poen oedd y drws yn y llen lle cawsai gip? Ai poen yw tem Duw; ai yno y daw'r adnabod? Ond hyd y gwêl, cuddio Duw a wna creulonder poen—ni all weled ei gariad yn y crawn; ni all glywed ei lais yn yr ochain ac fe aeth y llen yn dywyllach nac erioed.
Troi wedyn at y ffosilau, y cnapiau hynny sy'n cadw llun hen anifeiliaid y ddaear: anifail yn marw yn y gors ac yng nghwrs amser yn troi'n ddarn o garreg yn y glo a'r graig,

"Meini lle celwyd creadigaethau pell
Y bywyd brwd a wingodd drwy'r oesau.
Dail gwyllt a gipiwyd gan awel rewllyd
A'u plannu yng nghôl y garreg.
A'r goclen fach a gysgodd yn rhy drwm
I ddeffro a symud rhag parlys y maen".

Y mae darlun gwych yn y darn hwn onid oes? Y mae wedyn yn

torri haen y graig dafell wrth dafell ac yn gweld ôl tân ffwrnes y creu. Ond nid allai ac ni fentrai dreiddio yn ddigon pell i mewn i gydio a gafael yng nghnewyllyn y Duwdod. Cofiodd am hen sant o ewythr,

" 'Rwy'n cofio f'ewythr Dafydd,
Y sant o'r Garreg Lem
A droediodd lyn marwolaeth
Ac angerdd yn ei drem.

Plygodd dan faich ei henaint
A'i lygaid yn llawn hedd,
Gan dystio am fflam y cariad
Sydd yn goleuo'r bedd."

A oedd hi wedi gweled ôl "fflam y cariad" a'i taniodd ar y garreg a'r ffosil ; a gyffyrddodd ei bysedd a'r man lle bu ? Ond ni chaiff ateb i'r cwestiwn a gwag yw'r gofyn.

Ond y mae rhywun yn awr yn awgrymu "mai llaw marwolaeth a ddyry ddatguddiad". Tu hwnt i'r bedd—Tu hwnt i'r llen ? A yw hyn yn wir ? Ai marwolaeth sy'n tyllu'r llen a dangos Duw ? Oni ddylai fod gorfoledd yng nghalon dynion wrth farw ynte ? Ond beth a welodd y bardd ? "Gwelodd y meirw'n cerdded yn y niwl ac ambell enaid bach fel baban sy'n gadael ei fam yn edrych yn ôl, a'r llygaid ofnus yn drwm gan hiraeth". Mae'r gruddiau'n llaith, mae chwys ar ffordd y bedd. Nid hiraeth am fynd sydd arnom ond hiraeth am aros. Ond fe ddatodir ein gafael er ein gwaethaf ac fe'n gyrrir dros y dibyn fel defaid a hysir. Ai Duw sydd yno ? Mud yw'r marw ac y mae marwolaeth yn fwy o len na dim. Y mae'n cofio am Wil, fel y cofiwn ninnau am lawer o'i debyg, Wil sy'n marw'n ifanc,

"Aeth Wil i'r bedd yn ddeg ar hugain oed.
Tawodd ei chwiban ar rodfeydd y cwm.
Ar lawr y bwthyn tawodd sŵn ei droed
Ond glŷn wrth furiau eco'r cystudd trwm".

Dyna'i gyd sy'n aros, "sŵn y boen sy'n y byd". Na nid yw Duw yn y cystudd—oni ddaeth tywyllwch pan groeshoeliwyd yr Iesu ? Nid yw yn y bedd ! Pa le, pa le, o ddyn y mae dy Dduw ? Paham na elli ei ddangos a'i weled ? Ond erbyn hyn mae'r bardd yn gwybod mai'r cnawd yw'r llen sy'n atal dyn rhag canfod y Dwyfoldeb mawr. Pe gellid tynnu'r gorchudd hwn sydd am yr enaid byw, yna fe welai dyn y wynepryd teg,

"Pe medrwn daflu ei len oddi ar fy llygaid
A bwrw'r cig a'r gwaed . . . I ffwrn y difod
Pe byddai im y gallu fel y Mab
I wisgo a dadwisgo'r cnawd,

Fel yntau canfyddwn wynepryd Duw.
Rhoddwn bob nwyd, pob dawn i'w law
Pe rhoddid im y purdeb hwn."

Ond y mae un llygedyn o obaith yn aros, hyd yn oed yng ngharchar y cnawd, ac yn yr eiliadau pan fo dyn yn ymdebygu i'w Greawdwr gan droi i greu y mae hwnnw.

"Llacia'r gewynnau ac oera'r galon
Chwyth awel lanach dros erwau'r byd.
Daw diwedd nwyd ac arafu anadl.
Bryd hynny gŵyr enaid
Yr hiraeth nad yw o ddaear . . .
Y Llen a gryn tan law tangnefedd—
Crynu a goleuo ennyd
Fel y goleua ystafell y claf
Lle ciliodd Angau.

Ac onid yw tad a mam plentyn wedi teimlo'r gwefr hwn, yr awr annwyl,

"Awr o swyn pan losgo'r sêr
Edefyn y cnawd ofer".

Onid yw'r artist mawr wrth ei lun a'i organ wedi gweld amlinell a llun wyneb Duw tu ôl i'r llen? Onid yw'r gweithiwr cnotiog wedi gweld fflam y cariad dwyfol yn angerdd a gras ei grefft? Byddwch gan hynny yn berffaith; byddwch gan hynny yn debyg i mi; byddwch yn bur o galon; byddwch yn grewyr pethau mawr; byddwch yn fwy na'r cnawd a'ch cuddiodd—a chwi a welwch Dduw!

NADOLIG LLAWEN I BAWB!



Capel Pen-rhiw

Gan Iorwerth C. Peate.

Y mae Capel Pen-rhiw wedi cyrraedd Sain Ffagan. Yn ystod rhan o fis Medi a thrwy fis Hydref a dechrau Tachwedd 1953, bu gweithwyr Amgueddfa Werin Cymru wrthi'n ddiwyd a gofalus yn ei dynnu i lawr. Diau y teimla ambell un yn y Dre-fach yn ysig ei galon o weld yr hen adeilad hanesyddol wedi diflannu. Hawdd deall hynny, ond gallant ymlawenhau o wybod y cyfyd yr

hen gapel eto ac y gwelir ef nid yn llwyd ei wedd fel y cawsom ni ef ond yng ngwisgoedd ei ogoniant gynt. Caiff sefyll ar dir yr Amgueddfa Werin fel yr enghraifft glasurol o bensaernïaeth syml ac urddasol tai cwrdd Cymru ar eu gorau. Hyderaf yr ymwelir ag ef maes o law gan genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o Gymry nid o hwilfrydedd yn unig ond mewn ysbryd addolgar. Gobeithiaf hefyd y clywir eto'n gyson rhwng ei furiau lais y proffwyd fel yn y dyddiau gynt. Dechreuir ei ail-gyfodi yn 1954.

Datguddiodd y gwaith o symud yr adeilad rai o'i gyfrinachau. Pan agorwyd y capel gyntaf yn 1777, nid adeilad newydd mohono ond hen adeilad wedi'i gymhwyso fel Tŷ Cwrdd. Mae'n dra thebyg mai to gwellt oedd i'r hen adeilad canys yr oedd olion hynny yn y muriau ac yr oedd toeau gwellt yn yr ardal. Ond fel capel yn y ddeunawfed ganrif, cafodd urddas to main neu deils. Yn 1870 y rhoddwyd llechi meinion oes Victoria yn lle'r meini mwy trwchus. Yr oedd y darganfyddiadau'r tu mewn i'r Tŷ Cwrdd yn ddiddorol hefyd. Cafwyd nifer o gwils a hen boteli inc yn y llawr, a hefyd ddarn o bren yn dwyn yr arysgrif *Welsh N.*, tystiolaeth i'r defnydd a wnaethpwyd o'r adeilad fel ysgoldy ac o bresenoldeb yr hen arfer ffiaidd o wahardd defnyddio'r iaith Gymraeg yno, canys mae'n amlwg mai *Welsh Not* yw'r darn pren.

Trwy garedigrwydd Mr. Samuel J. Jones, Dyffryn, Felindre (ac yr wyf yn wir ddiolchgar iddo am ei hynawsedd), cefais gyfle i astudio un o hen lyfrau cyfrifon Capel Pen-rhiw, a gobeithaf y caiff y llyfr hwnnw gartref bythol yn y capel.* Hyd y gwelaf, yn Ebrill 1785 y dechreua'r cofnodion pan geir nodyn ' yn llaw Thomas Griffith ' am gasgliad ' glamai ' o 23/6 a chasgliad ' Calan gayaf ' o 22/6. Yn ystod y flwyddyn honno, prynwyd ' 3 Pottel o win ' am ddeunaw yr un, a phymtheg am 1/8 yr un. Talwyd 2/2 am fara. Yn ychwanegol at hyn, talwyd 2/2 ' am ddiod.' Mae'n amlwg oddi wrth gyfrifon 1794 (yn Saesneg) mai cwrw oedd y ddiod canys cawn ' for ale ' yn y flwyddyn honno, ac yn 1795 cofnodir yn blaen brynu ' 6 quart o Borter i'r Gweinidogion yn Awst, 2/6.' Sylwaf hefyd eu bod rai gweithiau yn prynu gwin *gwyn* yn fisol.

Cofnodiad diddorol arall yn 1785 yw ' i Mary Siôn, aelod dlawd, 3/- ' a thrwy ran helaeth o'r llyfr ceir cofnodiad blynyddol cyson sy'n ysgogi'r dychymyg fel hyn : ' i Ddafydd Siôn am sgybo'r tŷ 2/-.' Gellir tybio bod trawst newydd wedi'i osod yn y capel yn 1789, canys cofnodir mewn Cymraeg amheus ' am fûm yn y Tŷ a'i ddodi, 7/-.'

Fe ymddengys mai hanner coron oedd y tâl arferol i bregethwyr ond sylwais mai deunaw'n unig a gafodd ' one minister of Babtist ' yn 1794 ! Yn 1795 yr ymddengys ' rent y tŷ ' fel eitem arbennig. Yn 1797—9 adeiladwyd yno stabal (a thalu 1/2 am glo ar ei ddrws). Daethom ar draws sylfeini'r adeilad hwn ond nid oedd digon o

olion i'n galluogi i'w adgynhyrchu. Aethpwyd ati'r pryd hwnnw hefyd i atgyweirio'r capel a cheir cofnodion am dalu'r saer a'r maswn ac am y defnyddiau. Ymhlith y rheini y mae ' tills ' a ' teilstones '—' on top of the house '—ac ymddengys hefyd iddynt osod ffenestri newyddion. Yn yr un cyfnod, ceir rhestr helaeth o danysgrifiadau. Yn 1804, telid deunaw i Ddafydd Pen-rhiw ' for mending Court Hedge ' ac y mae'n amlwg, bid sicr, mai diweddar yw'r mûr o flaen y capel. Y mae manylion o'r fath yn eithriadol bwysig yn ein gwaith o ail-gyfodi'r capel fel yr oedd yn y ddeunawfed ganrif.

Nid yw'r hyn a nodais yn ddim ond ychydig i ddangos pa mor bwysig ydyw llyfrau cofnodion hen dai cwrdd Cymru i haneswyr yr oes hon a'r oesoedd a ddêl. Yn anffodus, hyd yn hyn ni welais ond yr un llyfr hwn ; gwych fyddai darganfod llyfrau cyfrifon i daflu goleuni ar hanes yr achos ym Mhen-rhiw ar hyd y ganrif ddiwethaf. Pan fydd y Capel wedi'i ail-gyfodi, hyderaf y bydd modd sgrifennu'i hanes yn llawn a thrafod nid yn unig fanion diddorol yr adeilad ei hun ond hanes yr achos ar hyd y blynyddoedd. Os digwydd bod dogfennau ym meddiant unrhyw un o'm darllenwyr a deifl oleuni ar yr hanes, byddaf yn wir ddiolchgar am y fraint o'u gweld.

Dylwn nodi hefyd nad yw llestri cymun yr eglwys ym Mhen-rhiw wedi cyrraedd yr Amgueddfa Werin. Clywais ddywedyd eu bod ym meddiant un o drigolion ardal y Dre-fach. Os gwir hynny, a gaf i apelio am eu gosod gyda'r capel fel bod stori'r adeilad hynafol hwn yn gyfan ? Pan ddaw'r dydd i ail agor y Tŷ Cwrdd, hoffwn i Gymru ei weld yn ei lawn ogoniant : i wneuthur hynny, dibynnwn ni yn yr Amgueddfa Werin ar gydweithrediad llawn caredigion Capel Pen-rhiw.

*Daeth ôl-nodyn oddi wrth y Dr. Peate yn dweud fod Mr. Samuel Jones wedi rhoi'r llyfr cyfrifon i'r Amgueddfa Werin erbyn hyn. Diolch yn fawr iddo.—*Gol.*

Michael Servetus

Gan J.M.T.

Nid yw Michael Servetus namyn enw i'r mwyafrif, eithr i'r rhai hynny a ŵyr ychydig o'r hanes, enw a ysgrifennwyd mewn llythrennau breision yn hanes cynnydd mewn crefydd a diwinyddiaeth ydyw. Yn hanes Undodiaeth ef yw'r enw mawr yn nharddiad y mudiad, a hynny heb ei fod yn Undodwr pendant ei hun.

Perthyn i'r cyfnod bore hwnnw pan ddihunodd Ewrop allan o'r tywyllwch y bu ynddo am ganrifoedd—tywyllwch anwybodaeth ac ofergoeliaeth a fu'n gormesu meddyliau dynion. Yr oedd y drysau yn dechrau agor, y pyrth fu yng nghlo cyhyd yn datgloi, a'r goleuni newydd yn cerdded ei ffordd. Dyma gychwyn cyfnod y Dadeni. Eisioes yr oedd Erasmus Fauer wedi ail-ddarganfod hen ffynonellau gwybodaethau Groeg—ffynonellau a guddiwyd cyhyd gan ddifaterwch a gormes Babyddol. Yn sgîl y Dadeni hwn daeth cyfnod aur y "Diwygiad Protestanaidd"—ac enwau fel a ganlyn—Luther yn 1517 yn cychwyn y mudiad yn yr Almaen, ac yn 1521 yn hoelio ei brotest yn erbyn camwri y Pab ; Zwingli yn 1518 yn rhoddi hwb i'r mudiad yn Genefa ac yn cael ei ddilyn gan Karlstadt, Melanchthon, Michael Sattler ac eraill, ac yn 1536, John Calfin. Nid oedd Lloegr heb deimlo'r cyffroad. Torrodd Harri'r VIII drwy y trasis, a gwelwyd y mudiad ar ei gynnydd.

Dyna gefndir hanes Michael Servetus—y llwybr yn ymagor, a "phen y Bryniau" y Grefydd Well yn agoshau.

* * *

Ganwyd Michael Servetus (neu Miguel Serfed) yn y flwyddyn 1511, yr un flwyddyn ag y ganed ei elyn pennaf—John Calfin. Ganwyd ef mwn pentref gwledig yn yr Ysbaen o'r enw "Villanueva". Ni wyddys rhyw lawer am ei gyfnod bore, ac ni pherthyn mewn ysgrif fel hon i mi ymhelaethu. Ac yntau yn 15 oed, danfonwyd ef i Brifysgol Toulouse i astudio'r gyfraith. Wedi cyrraedd ohono ei 18 oed (ac yr oedd yn fachgen eithriadol ei dalent), ymdaflodd i "strem y Diwygiad", a dechreuodd astudio'r Beibl mewn ffordd hollol newydd. Yn lle dibynnu ar yr hen esboniadau, a derbyn yn grynswth yr hen athrawiaethau, heb holi a manylu, aeth yn ôl at y ffynonellau cynharaf. Ac yntau eto ond 20 oed cyhoeddodd lyfr (ffrwyth ei astudiaeth fanwl o'r Beibl) yn dwyn y teitl—"Adferiad Cristnogaeth". A llyfr arall o'r un fath ddwy flynedd yn ddiweddarach. Amcan y llyfrau hyn oedd dinoethi llygredigaethau yr Eglwys Babyddol, a cheisio adfer i'r byd Gristnogaeth yn ei symledd cyntefig. Achosodd y llyfrau yma gyffro nid bychan o'r tu mewn i'r Mudiad Protestanaidd ei hun yn ogystal a thu mewn i'r Eglwys Babyddol. Yn gynnar yn ei fywyd felly gosododd ei hun mewn perygl.

Yn unol a'r arferiad y pryd hwnnw, newidiodd felly ei enw. Daeth am dro i fyw i ddinas "Lyons" yn Ffrainc. Yno, yn ddyn ifanc 25 oed dechreuodd astudio meddyginiaeth. Yna aeth i Baris i gwblhau ei ymchwiliadau Gwyddonol. Drylwyred oedd ei astudiaeth fanwl o elfennau ffisioleg nes iddo rag-ganfod cylchrediad y gwaed, a chymryd y blaen ar yr enwog William Harvey. Pan gyrhaeddodd 30 oed ymsefydlodd yn Vienna fel "Specialist" Meddygol i Archesgob y ddinas, gan feddyginiaethu yr un pryd i'r bobl dlawd.

Heb fanylu ar yr hanes deuwn i lawr felly at y flwyddyn 1553. Fel y dywedwyd eisioes, yn ystod blynyddoedd cynnar ei fywyd cymerai ddiddordeb anarferol yn y Beibl. Carai ei astudio gyda manylder ysgolor. Heb ofni croesi yr awdurdodau cyhoeddai gelwydd hen gredoau a hen athrawiaethau os eu caent yn anghyson ac yn anghywir. Yn ystod y blynyddoedd hyn daeth i gysylltiad mynych â John Calfin ei hun. Protestant pybyr oedd Calfin, ond ni olygai Protestaniaeth iddo ond ymwrthod ag awdurdod y Pab, a phregethu ohono efengyl "Calfiniaeth" yn ei grym.

Anniddorol ydyw'r hen dermau i'r lliaws heddiw, ond gwae y neb a'u gwadai yr adeg honno—Etholedigaeth ddiamodol; Llygredigaeth y Natur ddynol, ac anallu hollol dyn i Iachawdwriaeth; Cosbedigaeth Dragwyddol; Iawn Ddirpwyol—a pharhad mewn Grâs. Mentrodd Servetus alw Calfin i gyfrif. Wrth astudio'r efengylau, a darllen yn helaeth, canfu fod yna gryn nifer o syniadau yng nghredoau'r Eglwys (Protestaniaeth a Phabyddiaeth) yn anghyson â chrefydd syml yr Iesu. Bu gohebiaeth hir rhwng y ddau.

Maentymiau Servetus na ellid dod o hyd i'r gair "Trindod" yn y Beibl. Aeth ymhellach,—dywedodd na ddysgid dim am Athrawiaeth y Drindod yn y Testament Newydd. Daliai mai rhyw Athrawiaeth hollol ddieithr i Efengyl Iesu Grist oedd y cyfan. Hawliai hefyd yr un peth ar y "Cwestiwn o Fedydd". Peth anysgrythyrol hollol ydoedd bedyddio plant. Heriodd Babyddiaeth a Phrotestaniaid i wrthbrofi hynny mewn dadl. Yr oedd yn foddlon cwrdd ag unrhyw Ddiwinydd gyda Beibl agored, ac os gallai neb brofi ei fod yn anghywir yn ei wrthdystiad, bodlon ydoedd i syrthio tan ei fai.

"Mewn achos mor gyfiawn", meddai, "yr wyf yn benderfynol i ddal ymlaen, ac nid oes arnaf un tipyn o ofn marw, os raid". Felly yr heriodd. Ni dderbyniwyd yr her. Fe ddigwyddodd rhywbeth arall.

Yn y flwyddyn 1553 cyhoeddodd lyfr yn dwyn y teitl "Adferiad Cristnogaeth". Gwyddai am y perygl, a chyhoeddodd fil o gopïau yn ddienw. Ond nid hawdd bellach cadw ei hun yn ddienw. Danfonwyd rhai tudalennau o'r llyfr at yr Awdurdodau yn Vienna. Bradychwyd ef gan gyfaill. Dywedir i Galfin ei hun fod yn y bradychu. Dyma'r hanes: cynhaliwyd cynhadledd fawr o Babyddion. Cafwyd Servetus yn euog a danseilio'r ysgrythurau, a chondemniwyd ef i'w losgi'n fyw. Ar y 4edd o Ebrill, 1553 taflwyd ef i garchar. Dihangodd o'r carchar, a theithiodd y Cyfandir yn ffoadur, a'r "cŵn" ar ei ôl. Methwyd ar y pryd cael ail afael arno. Gyda'r canlyniad, er arbed siom a gorfod cyfaddef eu bod wedi methu, llosgwyd bwbach gwellt a dillad Servetus amdano, ac fe'i llosgwyd yn ulw. Credai'r bobl gyffredin fod y cyfan wedi ei gwblhau.

Ond crwydro fel ffoadur a wnai Servetus o hyd. Ar Awst 13

daeth i Geneva gyda'r bwriad i ddianc dros y llyn i ddiogelwch yr ochr draw. Dydd Sul ydoedd, ac yn unol â'r gyfraith gorfu iddo, fel pawb arall, fyned i'r eglwys i addoli. Yn ystod y gwasanaeth adnabyddodd rhywun ef. Cymerwyd gafael ynddo, a gosodwyd ef yr ail waith yn y ddalfa. Dygwyd ef y tro hwn i garchar Geneva gan y Protestaniaid. Yno y bu yn aros ei braw am wythnosau lawer. Ef ei hun sy'n adrodd yr hanes, ac yn ei eiriau gwelir y fath erlid a chreulondeb a ddaeth arno—"Ardderchog Arglwyddi, chwi sydd wedi fy nhraddodi yma i'r carchar,—atolygaf arnoch, er mwyn Crist, i beidio gwrthod inni yr hyn a ganiatewch i Dwrc, pan ddymunaf arnoch wneud cyfiawnder â mi. Mewn perthynas a'ch erchyllterau yr wyf yma mewn sefyllfa druenus. Yr wyf yn dioddef llawer oherwydd yr oerfel, a chan y colig a'r rhwygiad. Y mae y carchar mewn aflendid nad yw'n ddiogel i gi fod ynddo. Eithr ni chaniateir i mi ddweud un gair yn erbyn fy nhriniaeth greulon. Er mwyn Duw, fy argylwddi, rhoddwch imi ryw help naill ai o dosturi yntau o ddyletswydd—ydwyf, yn eich Carchar,

MICHEL SERVETUS."

Beth fu'r canlyniadau? Tosturio wrtho, a gweinyddu caredigrwydd? Nage! Daeth Calfin ei hun ato. Yn lle trugarhau, ac esmwythau arno, dywedodd hwnnw am iddo erfyn Maddeuant Duw cyn ei bod yn rhy hwyr am iddo geisio gwahanu tri pherson y Drindod. "Dylaset gael dy grogi fil o weithiau am hynny".

O'r diwedd dygwyd ef o flaen ei well. Ar y 26ain o Hydref dyfarnwyd ef yn euog yr ail waith. Dyma'r ddedfryd:

"Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, . . . yr ydym yn dy gondemnio di Michael Servetus i gael dy rwymo, a'th gludo i'r lle a elwir "Champel", ac yno dy glymu wrth bost a'th losgi'n fyw ynghyd a'th holl lyfrau argraffedig, hyd nes troi dy gorff yn lludw. Ac felly y terfynir dy ddyddiau er rhoddi esiampl i eraill a fynent wneuthur yr un peth" (Arwyddwyd—Dy Farnwyr Cyfiawn!).

Trannoeth clymwyd ef wrth y Stanc. Cyn cynnau'r tân rhoddwyd ail-gyfle iddo. Gallasai achub ei hun pe newidiau leoliad un gair mewn brawddeg. Pe dwedai, "Iesu Dragwyddol Fab Duw cymer drugaredd arnaf", yn lle—"Iesu Mab y Tragwyddol Dduw . . .", cawsai ei ryddid. Gwrthododd Servetus hynny cyn tanio'r ffagl a thalodd yr "Iawn am ei holl bechodau". Felly y bu farw dros ei argyhoeddiadau, yn Ferthyr dros ei Ffydd yn ddyn ieuanc dwy a deugain oed.

* * *

Ni ddioddefodd neb fwy dros ei ffydd na Michael Servetus. Beth amdanom ni heddiw? Eithr nid yw Michael Servetus wedi marw. Ni ellir llosgi proffwyd. Ni ellir cadw proffwyd mewn bedd. Myn adgyfodi. Fe ofala Duw am hynny.

Mae'n wir na wnaeth John Calfin fyth faddau iddo. (Nid oedd Maddeuant mewn Calfiniaeth heb dderbyn Calfiniaeth yn ei

grym). Bostiai iddo ddanfon "Heretic" i'w farwolaeth. Ond os na wnaeth dorri ei grib, buan ar ôl y merthyru ysgrifennodd gŵr o'r enw "Sebastian Castellio" lyfr protest. Dywedodd rai pethau llym. (Cododd gywilydd ar rai dynion parchus y ffydd). Protestiodd yn erbyn y fath anoddefgarwch.

"Saif Cristionogaeth", meddai, "nid i yrru dynion i farwolaeth am wahaniaethau ffydd, ond dros godi cymeriadau da a Duwiol. Un felly oedd Servetus. Chwi a'i danfonasoch i'r Stanc yn ddiachos. Cywilydd arnoch. Rhaid dysgu goddefgarwch yn gyntaf oll os am ddysgu ffordd yr Iesu o fyw. "Gwawried y dydd pryd y daw Cariad Crist i ddysgu dynion i garu ei gilydd". "To kill a Man is not to defend a doctrine. It is to kill a Man. What has the Sword to do with Doctrine? It is the State's business to protect the Teacher as it is to protect the Farmer, the Blacksmith, the Doctor and the Baker. The weapons of Servetus were arguments, and writings. Therefore he should have been opposed by arguments and writings and not the Stake".

Nid Undodwr oedd Castellio. Yn wir, ni chredai y cyfan a ddywedodd Servetus ei hun. Carwr Rhyddid a Goddefgarwch ydoedd. Chwarae teg iddo. Ond os nad oedd yn Undodwr, cymerodd y gannwyll. Goleuodd hithau y ffordd i Undodiaeth; i ysbryd Rhyddid a Rhyddymofyniad mewn Crefydd; i'r hawl i ddyn addoli Duw yn ôl iaith rheswm a chydwybod; i Grefydd Rydd. Cydiwyd yn y gannwyll gan Faustus Socinius a'r hen Dadau Undodaidd. Eithr stori arall ydyw honno—gair dros ysgwydd.

Perchir Servetus heddiw, blwyddyn dathlu ei farw, yn fwy am ei ysbryd na'i ddaliadau; am ei ddewrder yn gwrthdystio yn erbyn anwiredd, yn hytrach nag am yr anwireddau. Ar y 15ed o Hydref, 1911 codwyd cofgologn iddo yn Vienna i gofio ei eni, ac Undodwr yn y dadorchuddio. Heddiw ni chlywir sôn codi cofgologn i goffai ei farw. Coder honno yn ein calon. Hir y bo byw ysbryd ei ddewrder a'i ffydd.

"It is a heretic that makes the fire
Not he that burns in it".

EMYN GWLADGAROL.

Cofia'n Gwlad yn awr ei thrallod,
Taen Dy Adain drosti hi ;
Arwain hi yng ngrym Dy Gariad
At y Gwir Oleuni Fry :
Dy Gyfiawnder
Fyddo'i nerth ar lwybrau'r llawr.

Yn Dy Nef, O ! Clyw ei hymbil,
Rho Oleuni oddi fry
Dangos iddi Faner Iesu
Yn ei phrofedigaeth ddu :
Cadw'i golwg,
Ar yr hafan ddisglair draw.

Dduw y Cariad, rho'th arweiniad
I nefoli nodau'r llawr,
Fel bo i'r dylanwad Dwyfol
Adlewyrchu'r Nefol Wawr ;
Yn Dy Nefoedd
Gwrando'n gweddi dros ein Gwlad.

Bwlchyfadfa. Ellen Thomas.



Priodasau

Dydd Sadwrn, Mehefin 27, 1953, yng Nghapel Brondeifi unwyd mewn glân briodas, MAIR GWENLLIAN REES, merch Mr. Hugh Rees, Council Houses, Cwmanne a'r diweddar Mrs. Rees, a THOMAS GODFREY DOUCH. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog. Hir oes ac iechyd i'r ddeuddyn ieuanc.

Dydd Sadwrn, Awst 8, 1953 ym Mrondeifi, unwyd mewn glân briodas, NORA, unig ferch Mrs. Evans, Neuaddfach, Pencarreg a Mr. GEORGE ARRDOSMITH o Abertawe a'r Gweinidog yn gwasanaethu. Boed i'r pâr ifanc bob hapusrwydd.

Dydd Sadwrn, Medi 19, 1953 yng nghapel Bethel, Parcyrhos gan y Parchn. Burgess Jones a T. O. Williams, unwyd mewn glân briodas BESSIE, merch Mr. a Mrs. Hughes, Brynhirfaen, Cellan a GLYN EDWARDS, mab Mrs. Edwards a'r diweddar Mr. Iaasc Edwards, Coedeiddigfawr, Pencarreg. Gwened y nef ar y ddeuddyn ifanc.

YNG Nghapel yr Annibynwyr Mydroilyn, Hydref 17, unwyd mewn priodas, LEWIS EMRYS EVANS, Bryngwalia, Gorsgoch a DELOR THOMAS, Bridgend, Mydroilyn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Pryse Jones, S. E. Bowen a Iorwerth Davies. Dymunir pob bendith iddynt.

MEDI 19, yn eglwys Llanfihangel-Aber-Cowin, Sain Clêr, priodwyd EVAN DAN JONES, Glanyrafon, Llandysul a MEGAN PHELPS, Fairfield, Sain Clêr. "Hir oes a dedwyddwch".

TACHWEDD 6, yng Nghapel Rhydygwin, gan y Parch. Lewis Williams, unwyd mewn glân briodas, Miss MARY ROSINA EVANS, ail ferch Mr. a Mrs. Evans, Gelli, Felinfach â JOSEPH SYLVAN GRIFFITHS, unig fab Mr. David Walter Griffiths, Pentre, Llanfair. "Heb groesau y byddo'u dyddiau".

AR y 30 o Hydref, yng nghapel Ebeneser, Caerdydd, priodwyd ALUN BOWEN DAVIES, mab Mr. a Mrs. E. T. Davies, Sunnyhill, Llanybydder ag EIRWEN WILLIAMS, Whitchurch, Caerdydd, wyres y diweddar Mr. a Mrs. Thomas Davies, Maesygaer, Llanybydder. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. G. Jenkins.

Marwolaethau

HYDREF 8 bu farw JOHN DAVIES, Wernlas, Cwrtnewydd yn 68 oed. Treuliodd ei flynyddoedd bron i gyd yn y gymdogaeth ac yr oedd yn adnabyddus i deuluoedd yr ardal i gyd. Saer maen oedd wrth ei alwedigaeth ac yr oedd galw mawr am ei wasanaeth, a chanmoliaeth uchel iddo am ei ddiwydrwydd a'i onestrwydd. Hanai o deulu parchus, a gair da iddynt i gyd gan bawb. Yr oedd Capel-y-Bryn yn orlawn ar ddydd ei angladd y dydd Llun dilynol pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, Iorwerth Davies a S. Morgan. Gadawodd bedwar brawd a chwaer a llawer o berthnasau mewn hiraeth o'i golli.

HYDREF 13 bu farw SARAH GWEN DAVIES, Tegfan, Horeb yn 54 oed. Priod ydoedd i Mr. John Davies (gynt o Frynawelon, Talgarreg) a Mam June. Dioddefodd hir gystudd, ond gydag amynedd a ffydd. Yr oedd o gymeriad addfwyn, tawel a ffyddlon, ac yn aelod parchus yn eglwys Horeb. Colled fawr fu ei marw. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelyfadfa y Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. E. Nicholas (A), Aubrey Martin a J. Marles Thomas. Gedy ar ôl mewn hiraeth, briod a merch, dau frawd a dwy chwaer.

TACHWEDD 21, 1953 yn 86 mlwydd oed, Mrs. ANNE JONES, Maeldy, Ffynonoer, Felinfach, Ceredigion, gweddw y diweddar David Jones, Wernfeilig, Felinfach. Cafodd ei bendithio â iechyd da hyd yn agos i'r diwedd, ond yn anffodus syrthiodd ar y ffordd yn ymyl ei thŷ, gyda'r canlyniad iddi dorri ei chlun. Symudwyd hi i Ysbyty Gobowen, gerllaw Croesoswallt, ac oddi yno i Ysbyty Tanybwlch, gerllaw Aberystwyth. Yn y lle olaf hwn y bu farw. Bu yn llafurus iawn drwy ei bywyd, ac yn ofalus iawn i beidio gwastraffu dim. Meddai ar y ddawn i gyfeillachu â phobl, ac yr oedd yn adnabyddus iawn. Er na chafodd fawr o fanteision addysg yr oedd ei rheswm cryf yn ei gwneud yn un ddiddorol ei chwmni. Claddwyd ym mynwent eglwys Rhydybont gerllaw Llanybydder. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin. Gadawodd dri mab, un merch, un merch yng nghyfraith, wyrion a phedair chwaer mewn galar.

Newyddion yr Enwad

GRAIG A PHANTYDEFAID.—Dechreuwyd gwaith tymor y gaeaf gyda pharti pen blwydd ar y 25 o Fedi yn Neuadd Pantydefaid. Yr achlysur oedd dathlu "Priodas Aur" Mr. a Mrs. L. T. Thomas, Penarwel. Cafwyd gwledd o'r fath orau wedi ei pharatoi gan aelodau Urdd y Benywodd, a threuliwyd noson lawen i longyfarch y ddau ohonynt, ac estyn dymuniadau da.—Rhyw ddwy flynedd yn ôl cyflwynwyd Hen Gapel Penrhiw, Felindre yn rodd i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Bellach y mae y gwaith o'i symud wedi ei orffen. Nid oes yno bellach yn aros ond y fan y safai. A'r gweithwyr medrus eto'n marcio'r meini, a pharatoi yr hen adeilad ar gyfer ei gartref newydd, teimlodd rhai o fobl ifainc y Graig y carent fyned i'r fangre ar bererindod. Aethpwyd yno ar Hydref 4ydd a chynhaliwyd gwasanaeth ffarwelio. Nid hawdd rhoddi disgrifiad o'r gwasanaeth. Digon yw dywedyd i lawer llygad fod yn llaith wrth ganu hen emynau Gwilym Marles a chofio am yr hen ffyddloniaid. Terfynwyd trwy weddi gan ddymuno i'r hen bulpud a'r seddau a'r meini gartre diddan yn Sain Ffagan. Trefna awdurdodau yr Amgueddfa godi maen coffa ar yr hen seiliau fel y medr y byw gofio, a'r oes a ddêl wybod am y fan sanctaidd. Ni fwriedir ymyrryd a'r Fynwent o amgylch. Bydd honno o hyd yn ddaear orffwys yr hen anwyliaid.—Da bod cyfeillgarwch yn bodoli rhwng eglwysi rhyddion y cylch. Ar Sul, Hydref 4ydd cafwyd arwydd o hynny, gwelwyd y Parch. D. Rhydderch, B.A., Seion ym mhulpudau y ddwy eglwys, a gweinidog y ddwy eglwys ym mhwlpud Seion. Parhaed y brawdgarwch.—Ar 10fed Hydref cynhaliodd adrannau'r Sir o Urdd y Benywod eu cyfarfod Hydref yng nghapel y Graig. Cymerwyd y defosiynau gan Mrs. Marles Thomas, yn cael ei chynorthwyo gyda'r Organ gan Mrs. Park Davies, Y.H. Llywyddwyd gan Mrs. Evans, Cwrtnewydd.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch y ddwy eglwys ar Hydref 11 a 12 a'r Parch. D. Jacob Davies, B.A., Aberdâr yn gwasanaethu. Yn y Graig noson cynt cafwyd cwrdd arbennig y plant a'r Bobl Ifainc. Perfformiwyd "Pasiant

y Cynhaeaf" a gyfansoddwyd ar gyfer yr achlysur. Ar ôl yr oedfa rhoddwyd swper yn y Neuadd i blant yr Ysgol Sul.—Yn y Graig hefyd y cynhaliwyd, ar Hydref 27 a 28, Cyrddau Hydref y Gymdeithas. Pregethwyd gan y Parchn. Aubrey Martin, T. O. Williams, Lewis Williams, S. E. Bowen, D. Jacob Davies a'r Prifathro J. D. Jones.—Dechreuodd Cymdeithas y Bobl Ieuainc ar waith y tymor Nos Wener, Hydref 30. Cafwyd darlith ddiddorol gan Mr. I. T. Hughes, M.A. ar "Hanes Hen Llandysul". Llywyddwyd gan Mr. D. G. E. Davies, M.R.C.V.S., Faerdre.—Tro Pantydefaid ydoedd croesawu Llywydd y Gymdeithas Gyffredinol eleni. Gwnaed hynny nos Sul, Tachwedd 8. Traddodwyd anerchiad amserol gan y Parch. Herbert Crabtree (Llywydd y Gymdeithas am y flwyddyn). Cymerwyd rhan gan y Parch. Aubrey Martin a llywyddwyd gan y Gweinidog.—Oherwydd anonestrwydd rhai chwareuwyr mewn Gyrfa Chwist, penderfynodd Aelodau Urdd y Benywod Pantydefaid ymwrthod â'r chwarae ac yn ei lle cynhaliwyd math ar "Noson Lawen" ar Dachwedd 14. Cafwyd "Arwerthiant Rhoi a Phrynu" a nifer o chwaraeon diniwed. Bu'r fenter yn llwyddiant annisgwyl.—Estynnir ein dymuniadau gorau i Peter Davies, 1, Wind Street ar ddechrau ohono ei gwrs Prentisiaeth yn y Fenni. Yn yr Ysgol Sul, prynhawn Tachwedd 15, cyflwynwyd iddo Feibl yn anrheg gan yr Arolygwr, Mr. Edward Davies.—Da ydoedd gweld rhai o blant y ddwy eglwys adref ar wyliau yn ddiweddar, ac yn ei plith Miss Maureen Evans, Dolgrogws. Daeth yn ôl am dro o Ynys Syra ym Môr y Canoldir. Bellach y mae hi wedi dychwelyd gyda'n dymuniadau gorau.—Bwriada Aelodau Urdd Benywod y Graig gynnal "Sale of Work" ar Rhagfyr 9fed yn Neuadd y Graig. Agorir yr Arwerthiant gan Mrs. Davies, Faerdre. Estynnir croeso calon i ymwelwyr.—Cynhelir Eisteddfod Flynyddol Pantydefaid ar Sadwrn, Rhagfyr 5ed. Gobeithir am y llwyddiant arferol.

CYFRANIADAU AT "YR YMOFYNNYDD".—Cofiodd tri chyfaill am ein misolyn y mis hwn eto, ac fe garwn ddiolch o galon iddynt am ei haelioni. Diddorol sylwi bod nifer helaeth o'r cyfraniadau eleni wedi dod oddi wrth Gymry sy'n byw mewn gwledydd eraill. Beth am wneud 1954 yn flwyddyn o ymdrech gartrefol? Dyma'r cyfranwyr: John L. Williams, 8, St. Margaret Ave., Cefn Fforest, Pengam, Mynwy, £1; y Parch. J. Glynne Davies, Comber, Belfast, 13s.; T. Ivor Evans, Dolau, Nottingham Road, Short Hills, New Jersey, £1.

YR HEN DY CWRDD, ABERDÂR.—Nos Sadwrn, Tachwedd 14 cafwyd "Noson gyda'r Delyn" yma a dwy ferch ifanc yn ein dysgu a'n diddori mewn cerdd dant. Y delynores oedd Ann Griffiths o Faesteg, merch a ddaeth yn enwog yng nghylch Gorsedd y Beirdd a daeth Ann Davies (merch Dan Davies, Alltyblaca) i'w chynorthwyo. Adroddodd y gweinidog hanes rhai o hen delynorion yr Hen Dŷ Cwrdd ac fe adroddodd nifer helaeth o hen benillion telyn a hwiangerddi'r fro. Cawsom gynulleidfa fawr a derbyniad brwd am fenter newydd.—Llongyfarchion i Hywel Davies, un o blant yr Hen Dŷ Cwrdd am ennill gwobr gyntaf Clwb Plant *Y Cymro* am ddarn o farddoniaeth. Clywsom adrodd darn arall o'i waith mewn Eisteddfod leol

yr un wythnos.—Y mae'r Hen Dŷ Cwrdd yn awr yn paratoi ar gyfer ymweliad gan Rhydwen Williams, y darlledwr enwog ar yr 11eg o Ragfyr. Bydd Mr. Williams yn cyflwyno darlleniad dramatig o *Rhys Lewis*, Daniel Owen.—Ar y Sul olaf o'r mis, cyflwynwyd oriawr aur i Mr. S. R. Butler, darpar lywydd y Gymanfa Gyffredinol, am ei waith ffyddlon fel pregethwr lleyg yn y capel. . . . Carem hefyd longyfarch Mrs. D. R. Davies am ennill mewn cystadleuaeth 'Ysgrifennu Pregeth.' Cafodd feirniadaeth wych gan Miss Cassie Davies, M.A., H.M.I. Beth am gyhoeddi'r bregeth yn YR YMOFYNNYDD ?—Dathlodd Mr. a Mrs. W. Jones, 14, Bryn Terrace, Cwmdâr eu priodas aur yn ystod y mis. Llawer o ddyddiau dedwydd, da a fo iddynt eto.—Blin gennym gofnodi fod Mrs. E. R. Dennis wedi bod yn bur glaf yn ddiweddar, ond gorau'r modd y mae ar wellhad erbyn hyn.

HIGHLAND PLACE.—Cynhaliwyd "Arwerthiant Gwaith Llaw" ar y 26 o Dachwedd, ac er iddi droi yn ystormus gwnaethpwyd elw o yn agos i gan punt. Bendith ar y gwragedd diwyd yma fel ymhob eglwys arall.

LLWYNRHYDOWEN.—Yng nghyfarfodydd Diolch Llwynrhydowen ar y 29ain o Hydref, pregethodd y Parch. D. Jacob Davies yn rymus o amserol i gynulliadau lluosog. Bu'r Llwyn yn ffodus iawn i gael rhodd o Organ gan Miss Ann Davies, Pantmoch. Mwynhawyd gwasanaeth y Parch. T. E. Nicholas, Aberystwyth yn y Bwlch a'r Llwyn ar Dachwedd 1, a dathlwyd pedwar canmlwydd merthyrdod Servetus yn y ddeule ar Dachwedd 8 a'r 15.

ANRHEGION NADOLIG I'R PLANT.—Byddwch yn chwilio am lyfrau i'r plant yn ystod y mis. Ni ellid gwell na rhoi copi o hanes Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr iddynt—llyfr sy'n cynnwys penodau helaeth o hanes yr enwad yng Nghymru. Cyhoeddwyd y llyfr am dri swllt, ond gallwch sicrhau copïau am swllt yr un yn awr oddi wrth Mr. Edgar Williams, Gelli Villa, Llywelyn St., Trecynon, Aberdâr.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr eglwysi yma a gwasanaethwyd gan y Parch. A. J. Martin, B.A. Cafwyd cynulliadau lluosog a gwasanaethau da.

AT DDOSBARTHWYR, GWEINIDOGION AC ERAILL.—Daeth cyfle unwaith eto i wneud ymgyrch arbennig i ledaenu cylchrediad a gwerthiant YR YMOFYNNYDD. A wnewch chwi'r apêl yma'n llafar i bedwar ban y byd : "*Rhaid i'r* YMOFYNNYDD *fyw* !" (1) Gofaler bod apêl am ddarllenwyr newydd yn cael ei gwneud o bob un o'n pulpudau a chan ddosbarthwyr pob un o'n capeli. Nac anghofier cymell y rhai a laesodd ddwylo. (2) Ymdrechwch i gael darllenwyr o'r tu allan i'r mudiad. Mwynheir YR YMOFYNNYDD gan ddegau o wŷr cyffelyb eisoes ond rhaid ychwanegu eto at y rhif. Y mae'r YMOFYNNYDD yn rhywbeth mwy na phapur cul enwadol. (3) Gwnâi'r YMOFYNNYDD anrheg Nadolig ardderchog a hollol arbennig i gyfaill llengar

neu un o'r teulu oddi cartref. Danfonwch y cyfeiriad a'r tâl am flwyddyn neu hanner blwyddyn at Wasg Gomer—ni ellid presant gwell. *Ewch ati bawb* !

Y Cwpwrth Llyfrau

Am fod y gofod yn brin a'r rhifyn hwn yn cynnwys dwy erthygl ar ffurf adolygiad, bu'n orfodol arnom i gwtogi'r adolygiadau canlynol. Gwell hynny na gohirio gan fod tymor y Nadolig yn bwysig ym myd gwerthu llyfrau.

Anthropos gan O. Llew Owain ; pris 7/6, neu 7/11 drwy'r post ; 121 tud. (*Ni cheir enw cyhoeddwr o gwbl arno a chredaf fod hyn yn wall gresynus. Hwyrach y gellir ei gael o Lyfrfa'r Methodistiaid, Caernarfon lle'r argraffwyd y llyfr*).

Dethlir canmlwyddiant Anthropos eleni a dyry'r llyfr hwn olwg eang ar fywyd, gwaith ac arabedd y gŵr enwog hwnnw. Nid anenwog mo'r awdur chwaith a gwyddom amdano eisoes fel awdur llyfr safonol ar "Hanes y Ddrama yng Nghymru" a chyfrol ddifyr ar "Anthropos a Chlwb Awen a Chân". Yr oedd angen am gyfrol i gofio Anthropos ac ni ellid taro ar neb cymhwysach i'w hysgrifennu na Llew Owain, hen gyfaill iddo a chydweithiwr. Saif Anthropos ymhlith awduron mwyaf cynhyrchiol Cymru oblegid cyhoeddodd 31 o lyfrau ynghyd â channoedd ar gannoedd o erthyglau i gyfnodolion a phapurau, ac yn sicr nid oedd ei anwylach. Pwy na ŵyr am dynerwch stori "Y Pentre Gwyn" a "Tŷ Capel y Cwm" ac os yw'r cyfrolau yma o eiddo Anthropos yn eich meddiant y mae'n anhepgor i chwi gael hanes yr awdur wrth eu hochr. Cewch benodau o'i hanes a phenodau o ddyfyniadau difyr o'i waith a'i ddywediadau yma, ac i ddangos trylwyredd yr awdur ceir 17 tud. o Lyfryddiaeth Anthropos ar y diwedd. Dyma'r cyfuniad gorau o ysgrifennu ysgafn, darllenadwy ac ysgolheictod a welais ers tro byd. Un gwall bach—ni cheir cyfeiriad yn y Llyfryddiaeth at ysgrifau Anthropos i'r Ymofynnydd—chwilied y Llew !

O Nanconwy i Golorado gan H. Parry Jones ; Gwasg Aberystwyth ; pris, 7/6 ; 197 tud., ynghyd â lluniau a map.

Enillodd y gyfrol hon ran o'r wobr o £200 a gynigiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth ac anogwyd y Pwyllgor i'w chyhoeddi ar unwaith. Gallaf gymeradwyo'r gyfrol hardd i'r neb sydd a blys teithio yn ei waed a phleser digymysg yw dilyn yr awdur o Ogledd Cymru i America a Chanada ac yn ôl. Y mae Mr. Jones yn ŵr sylwgar yn medru Cymraeg rhugl a dawn darlunio person a lle. Yn ei Ragair dywed, "Golyga teithio nid yn unig

symud, ond hefyd aros", a dyna'n union a gawn drwy'r gyfrol i gyd. Mantais fawr arall yw'r ffaith fod Mr. Jones yn hanesydd gwybodus a lle bo man neu adeilad neu grair diddorol y mae'r manylion ar flaenau ei fysedd. Swynwyd fi'n arbennig gan ei ymweliad â Thabernacl y Mormoniaid yn Utah a chan ei sylwadau ar Gymry America a Chanada a gyfarfu ar ei daith. Clod i'r awdur a'r cyhoeddwyr am waith gwych. Sylwais ar un mefl bach yn y frawddeg gyntaf ar dud. 197 lle ceir *iaith* yn lle *taith*. Chwerddais yn iach wrth ddarllen am ddull yr Americanwyr o hysbysebu. Gosodir estyll ar ochr y ffordd fawr tua canllath oddi wrth ei gilydd a rhyw ddau air ar bob un fel y gwelo'r modurwr hwy wrth yrru heibio. Dyma un pennill a gododd yn y dull yma :

/ THO TOUGH / AND ROUGH / THROUGH WIND/ AND WAVE /
/ YOUR CHEEK / GROWS SLEEK / WITH BURMA-SHAVE /

Cymeradwyaf o galon.

Yr Ysgol Haf gan Rhiannon Davies ; Gwasg Aberystwyth ; Pris 5/- ; tud. 87.

GWAITH annifyr yw gorfod dweud na chefais fawr flas ar y nofel ddtectif yma, yn enwedig gan gy mod yn adnabod yr awdur. Y mae'n rhaid wrth wau clos a threfnu helaeth ymlaen llaw mewn nofel ddtectif cyn y bo'r cuddio a'r datguddio, y celu a'r datgelu yn creu ias a blas wrth fynd ar drywydd yr adyn. Yn hyn o beth y mae crefft *Yr Ysgol Haf* yn llac a gwastreffir y traean cyntaf o'r darllen cyn bo dim byd yn digwydd. Ceir gormod o siarad a disgrifio di-fudd yng nghorff y nofel hefyd. Ysgrifennodd Mrs. Davies a'i gŵr yn wych ar *Hanes Datblygiad Gwyddoniaeth* ond y mae'n amlwg nad yw'r nofel dditectif yn briod faes iddi.

Y Genhinen, Rhifyn Hydref 1953. Pris 2s. ; Gwasg Gomer, Llandysul.

DYMA gyfrol arall amrywiol ei chynnwys gyda dogn da o drwm ac ysgafn rhwng ei chloriau. Mwynheais ysgrif Cynan ar "Pedrog y Bardd" ac eiddo J. Oliver Stephens ar "Edmund Crosby Quiggin" yr ieithwr medrus. Cymeradwyaf y gyfrol i ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD am fod ynddi ysgrif hyfryd ar y Dr. T. Hopkin Evans, y gŵr a oedd yn gymaint arwr yn ein Cymanfa Fawr. Cawn awdl ail-orau Gwilym Ceri i'r "Ffordd" ynghyd â phryddest ail-orau Dilys Cadwaladr i'r "Llen" yn y gyfrol hefyd, ar wahan i beth wmbredd o fanion diddorol ar waelod y ddalen.

DAU LYFR PWYSIG.—*Cysgod y Cryman*, nofel fawr Islwyn Ffowc Elis a *Hen Dŷ Ffarm*, hunangofiant D. J. Williams, Abergwaun. Ni ddaethant o'r wasg eto ond gallaf eich sicrhau mai'r rhain fydd ar ben rhestr llyfrau'r flwyddyn. Gwerthwch eich crys i'w prynu !

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.